General Optical Council

# Addasrwydd i Ymarfer

**canllawiau i gyflogwyr**

## Gwybodaeth am y llyfryn hwn

Mae'r llyfryn hwn wedi'i fwriadu ar gyfer y bobl hynny sy'n cyflogi un o gofrestreion y GOC ac sydd â phryderon am eu cyflogai sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer o bosibl.

## Amdanom ni

Rydym yn rheoleiddio optometryddion, optegwyr cyflenwi, optometryddion dan hyfforddiant, optegwyr cyflenwi dan hyfforddiant a busnesau optegol yn y DU. Rydym yn cyfeirio at y grwpiau hyn fel ein cofrestreion. Ar hyn o bryd, mae tua 26,000 o gofrestreion ar ein cofrestri.

## Beth ydym ni'n ei wneud?

Rydym yn diogelu'r cyhoedd drwy wneud y canlynol:

- gosod safonau ar gyfer addysg optegol, hyfforddiant, perfformiad ac ymddygiad;
- cymeradwyo'r cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
- cyhoeddi cofrestr o optegwyr, myfyrwyr a busnesau optegol yn y DU;
- ymchwilio a gweithredu ar bryderon nad yw cofrestrai yn addas i:
  - ymarfer;
  - hyfforddi i fod yn optegydd; neu
  - redeg busnes sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC).

## Beth yw addasrwydd i ymarfer?

Os caiff optegydd ei ddisgrifio fel rhywun sy'n 'addas i ymarfer', bydd hynny'n golygu ei fod yn cyrraedd y safonau iechyd, cymeriad, gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gwneud ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Ein safonau

Rhaid i ddarpar gofrestreion gyrraedd ein safonau gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad. Nodir y rhain mewn dwy ddogfen, sef 'Safonau cymhwysedd' (gwybodaeth a sgiliau) a 'Safonau ymddygiad' (ymddygiad). Mae'r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan yn **www.optical.org/en/standards/index.cfm**

Os na fydd cofrestrai yn addas i ymarfer, gallwn ei atal rhag gweithio yn y DU, neu gallwn gyfyngu ar y gwaith y caniateir iddo ei wneud.

## Pwy sy'n gallu cwyno?

Gall unrhyw un gwyno wrthym ni os bydd yn credu nad yw un o'n cofrestreion yn addas i ymarfer.

Byddwn yn cael cwynion gan aelodau o'r cyhoedd, cleifion, gofalwyr, cyflogwyr, yr heddlu a chofrestreion eraill. Mae'r llyfryn hwn wedi'i fwriadu ar gyfer cyflogwyr.

## Yr hyn y bydd angen i chi ei wneud

Rhaid i chi weithredu'n gyflym i ddiogelu cleifion os bydd gennych wybodaeth bwysig am gofrestrai a all olygu nad oes ganddo'r sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad neu'r iechyd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol, neu i fod yn rhywun y gellir ymddiried ynddo i weithredu'n gyfreithlon.

Rydym yn argymell y dylech chi fel cyflogwr geisio mynd i'r afael â'ch pryderon ar lefel practis neu fusnes yn gyntaf. Os byddwch wedi rhoi cynnig ar y dull hwn mewn perthynas â darparu gwasanaethau'r GIG, ac nad yw hynny wedi llwyddo, dylech, yn y lle cyntaf, roi gwybod i'r sefydliad gofal sylfaenol lleol am eich pryder.

Fodd bynnag, dylech roi gwybod i'r GOC ar unwaith:

» os na fydd yn ymarferol cymryd camau ar lefel leol
» os bydd camau ar lefel leol wedi methu
» os bydd y broblem mor ddifrifol fel ei bod yn amlwg bod angen i'r GOC ymwneud â'r mater
» os byddwch yn ofni y ceir achos o erledigaeth neu gelu'r gwir.

Caiff pob honiad posibl ei ystyried fesul achos unigol. Mewn rhai achosion, efallai na fydd dweud wrthym am bryder sydd gennych am addasrwydd cofrestrai i ymarfer yn golygu y bydd y GOC yn agor ymchwiliad yn awtomatig. Mae'n bosibl y byddwn am gael tystiolaeth gennych sy'n ategu eich pryder. Os felly, bydd yn briodol i ni aros nes i chi orffen eich gweithdrefnau. Ni allwn fwrw ymlaen â'n hymchwiliadau heb dystiolaeth ac, yn y rhan fwyaf o achosion, chi fydd y person gorau i roi'r dystiolaeth honno i ni.

Ceir achosion eraill lle y bydd yn ymddangos bod yr honiad mor ddifrifol fel y byddwn yn agor ein hymchwiliad ein hunain cyn i chi orffen eich ymchwiliad chi. Ymhlith yr enghreifftiau mae honiadau o ddiffygion clinigol difrifol a pharhaus, camymddwyn rhywiol neu anonestrwydd ar raddfa fawr.

Yn y mathau hyn o achosion, efallai y byddwn yn ystyried bod angen i'r GOC gymryd camau ar unwaith i ddiogelu'r cyhoedd cyn i'r ymchwiliad ar lefel leol ddod i ben. Os bydd y GOC yn agor ymchwiliad, bydd hynny'n golygu na all y cofrestrai osgoi canlyniadau'r ymchwiliad drwy dynnu ei enw ei hun oddi ar y gofrestr. Bydd hefyd yn golygu y gallwn ystyried a ddylid gwneud cais am orchymyn interim (gweler tudalen 8).

Os byddwn yn penderfynu ymchwilio i gofrestrai a gaiff ei gyflogi gennych chi, byddwn yn cysylltu â chi. Os bydd gennych unrhyw bryderon am y cofrestrai hwn nad ydych wedi'u rhannu â ni o'r blaen, rhowch wybod i ni.

Os na fyddwch yn siŵr sut i ddelio â'ch pryderon ynglŷn â chofrestrai a ph'un a ddylai'r GOC fod yn rhan o'r broses, ffoniwch ni ar 020 7580 3898 (opsiwn 2) a bydd un o'n tîm Addasrwydd i Ymarfer yn fwy na pharod i siarad â chi. Bydd ein staff yn gweithio gyda chi i benderfynu a allwn ni helpu a pha gamau i'w cymryd. Os na allwn helpu, byddwn bob amser yn dweud wrthych a oes sefydliad arall a allai eich helpu.

## Pa fathau o gwynion y gallwn ddelio â nhw?

Dim ond pryderon am faterion sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer y gall y GOC ymchwilio iddynt.

Gall y rhain gynnwys:

» perfformiad proffesiynol gwael, fel methu sylwi ar arwyddion o glefyd llygaid
» methu â chadw cofnodion priodol
» problemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl sy'n effeithio ar waith rhywun
» ymddygiad amhriodol, fel trais neu ymosodiad rhywiol
» bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn y gwaith
» twyll neu anonestrwydd
» rhybuddiad neu euogfarn droseddol.

Ni allwn wneud y canlynol:

» trefnu ad-daliadau neu iawndal
» cyfryngu rhwng cofrestrai a chlaf
» rhoi cyngor cyfreithiol i chi yng nghyd-destun cyfraith cyflogaeth neu fel arall
» ystyried materion sy'n ymwneud â chyflogaeth fel gwrthdaro rhwng personoliaethau, cadw amser yn wael; absenoldeb o'r gwaith, neu anghydfodau contractiol.

Fodd bynnag, os byddwch yn credu y gall gwrthdaro rhwng personoliaethau fod yn dystiolaeth o fwlio neu aflonyddu, neu y gall salwch neu absenoldeb o'r gwaith fod yn rhan o fater ehangach o ran iechyd neu anonestrwydd, dylech gysylltu â ni.

Rydym yn gwerthfawrogi y gall fod yn anodd gwahaniaethu weithiau rhwng mater disgyblu mewn cyd-destun cyflogaeth ac ymchwiliad addasrwydd i ymarfer. Yn yr achosion hynny, dylech ein ffonio ni a byddwn yn gallu gweithio gyda chi i benderfynu a all y GOC ymchwilio i'ch pryder.

Os ydych yn berchen ar bractis sy'n cyflogi optometryddion dan hyfforddiant neu optegwyr cyflenwi dan hyfforddiant, neu os ydych yn rheoli practis o'r fath, dylid codi unrhyw bryderon sydd gennych am eu perfformiad clinigol gyda'u goruchwyliwr yn y coleg neu eu corff proffesiynol:
Coleg yr Optometryddion: **www.college-optometrists.org**
Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain: **www.abdo.org.uk**

Os daw cofrestrai yn ymwybodol o unrhyw fater a all effeithio ar ei addasrwydd i ymarfer, bydd cyfrifoldeb arno i roi gwybod i'r GOC ar unwaith, er enghraifft:

- os bydd wedi'i gael yn euog o drosedd/wedi cael rhyddhad amodol
- os bydd wedi cael rhybuddiad gan yr heddlu
- os bydd wedi cael ei ddisgyblu gan unrhyw sefydliad sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol
- os bydd wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed
- os bydd wedi cael ei atal dros dro neu ei roi o dan gyfyngiad ymarfer gan gyflogwr neu sefydliad tebyg oherwydd pryderon ynglŷn â'i addasrwydd i ymarfer
- os bydd ganddo gyflwr iechyd y byddai person rhesymol yn credu y gall amharu ar ei addasrwydd i ymarfer.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

Os byddwch chi, fel cyflogwr, yn dod yn ymwybodol o unrhyw un o'r materion hyn neu bryderon eraill sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer, dylech roi gwybod i ni ar unwaith.

## Beth fydd yn digwydd os gwneir cwyn am un o'ch cyflogeion?

Bydd aelodau o'r cyhoedd yn codi pryderon am y driniaeth y maent wedi'i chael yn uniongyrchol gyda'r GOC. Pan fyddwn yn cael cwyn gan glaf sydd wedi bod i'ch practis, byddwn yn ysgrifennu atoch yn gofyn am wybodaeth a fydd yn cynorthwyo ein hymchwiliad. Gall hyn gynnwys enwau'r holl optometryddion sy'n trin a/neu'r optegwyr cyflenwi, cofnodion optegol neu ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau penodol.

Os ydych yn gyflogwr cofrestredig, rhaid i chi gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad ffurfiol ynghylch addasrwydd gweithiwr iechyd proffesiynol arall i ymarfer neu i hyfforddi fel optometrydd neu optegydd cyflenwi. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau gan sefydliadau eraill.

Mae'r Ddeddf Optegwyr yn rhoi'r pŵer i'r GOC ei **gwneud yn ofynnol** i unrhyw unigolyn (gan gynnwys cofrestrai) gyflwyno unrhyw wybodaeth neu ddogfen y mae'r GOC o'r farn ei bod yn berthnasol i'w swyddogaeth addasrwydd i ymarfer. O ganlyniad i hynny, er y byddem yn disgwyl i chi gydweithredu, gallwn hefyd wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n mynnu eich bod yn cyflwyno dogfennau i ni.

Os bydd gennych unrhyw bryderon ynglŷn â rhoi gwybodaeth i ni, gallwch siarad â ni amdanynt. Ni allwn roi cyngor cyfreithiol i chi ond gallwn esbonio pam rydym yn gwneud y cais. Fel arall, gallwch siarad â'ch corff proffesiynol neu gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

## Yr hyn y gallwn ei ddweud wrthych

Mae ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer yn breifat ac ni fyddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod cofrestrai yn destun ymchwiliad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ni ysgrifennu at gyflogwyr a rhoi gwybod i chi am yr ymchwiliad. Os byddwch yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad, bydd yn rhaid i ni benderfynu a fyddai rhoi'r wybodaeth honno er budd y cyhoedd. Rhaid i chi wneud y cais hwnnw i ni yn ysgrifenedig, gan esbonio pam y byddai er budd y cyhoedd i chi gael rhagor o wybodaeth, a byddwn yn ystyried eich cais yn unol â hynny. Mae Atodiad 1 yn cynnig templed pro forma ar gyfer gwneud ceisiadau o'r fath.

Pan fydd yr archwilwyr achos (gweler tudalen 10) wedi penderfynu p'un a ddylid atgyfeirio'r honiad yn erbyn eich cyflogai at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ai peidio, byddwn yn ysgrifennu atoch eto i rannu'r canlyniad â chi.

Hefyd, byddwn yn cyhoeddi rhestr o hysbysiadau bob mis sy'n rhoi manylion canlyniadau gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a'r cofrestreion sy'n destun gorchmynion interim. I gael yr hysbysiadau hyn, anfonwch e-bost atom yn goc@optical.org.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi manylion gwrandawiadau sydd i ddod tua wyth wythnos cyn dyddiad y gwrandawiad ar ein gwefan **www.optical.org/en/Hearings/index.cfm** o dan 'Future hearings'.

## Gorchmynion interim

Pan fyddwn yn cael gwybodaeth sy'n awgrymu bod risg wirioneddol ac uniongyrchol i'r cyhoedd neu i'r cofrestrai ei hun, neu fod rheswm arall sy'n ymwneud â budd y cyhoedd os bydd cofrestrai yn parhau i weithio heb gyfyngiad, byddwn yn ystyried a ddylid gwneud cais am orchymyn interim.

Gorchymyn i atal cofrestrai dros dro neu osod amodau ar ei gofrestriad ar unwaith yw gorchymyn interim.

## Os caiff y cofrestrai ei atal dros dro, ni fydd yn gallu gweithio

Os gosodir amodau ar ei gofrestriad, bydd yn gallu gweithio, ond dan gyfyngiadau. Efallai y gofynnir i chi oruchwylio'r cofrestrai wrth ei waith o ddydd i ddydd, neu weithredu fel mentor yn y gweithle. Os gofynnir i chi wneud hyn ac os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni ar 020 7580 3898 (opsiwn 2) a byddwn yn esbonio'r hyn y bydd disgwyl i chi ei wneud. Byddem yn disgwyl i chi fod wedi cytuno i fod yn oruchwyliwr cyn i'r amodau gael eu gosod ar gofrestrai.

Os cewch wybod bod cofrestrai yn gweithio yn groes i'r gorchymyn interim, dylech ddweud wrthym ar unwaith.

Gallwch gael gwybod a yw eich cyflogai yn destun gorchymyn interim drwy chwilio'r gofrestr ar-lein ar ein gwefan yn **www.optical.org.**

I gael rhagor o wybodaeth am y math o amodau y gellir eu gosod ar gofrestriad cofrestrai, gweler y ddogfen ganllaw i Banelwyr Addasrwydd i Ymarfer, *Bank of Conditions*, yn **www.optical.org/en/Investigating_complaints/fitness-to-practise-guidance/index.cfm**.

## Sut mae cwyno?

Os byddwch am gwyno am un o'n cofrestreion, llenwch ffurflen ymchwiliad ac anfonwch hi atom. Gallwch lawrlwytho ffurflen ymchwiliad o **www.optical.org**.
I ofyn i ni anfon ffurflen ymchwiliad atoch drwy'r post, ffoniwch 020 7580 3898 (opsiwn 2).

Ar ôl ei llenwi, anfonwch eich ffurflen ymchwiliad i:
Tîm Addasrwydd i Ymarfer / Fitness to Practise Team
Y Cyngor Optegol Cyffredinol
41 Harley Street
Llundain W1G 8DJ

Os byddwch yn penderfynu peidio â defnyddio'r ffurflen ymchwiliad, bydd angen y wybodaeth ganlynol arnom pan fyddwch yn gwneud cwyn i ni:

- enw llawn y cofrestrai â'i rif GOC
- y cyfeiriad lle mae'r cofrestrai yn ymarfer
- esboniad manwl o'r digwyddiadau sy'n peri pryder i chi
- unrhyw ddogfennau y byddwch wedi'u casglu i ategu eich cwyn
- manylion unrhyw gamau y byddwch chi, yr ymddiriedolaeth gofal sylfaenol neu sefydliad arall wedi'u cymryd
- manylion unrhyw un arall sy'n gallu ategu eich cwyn.

Os bydd gennych unrhyw bryderon ynglŷn â chyfrinachedd cleifion pan fyddwch yn rhoi gwybodaeth i'r GOC, efallai yr hoffech gael cyngor gan eich corff proffesiynol neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.



## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Pan fyddwn yn cael cwyn am un o'n cofrestreion, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

**1. Dechrau delio â'r gŵyn**
Byddwn yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi cael eich cwyn a pha gamau y byddwn yn eu cymryd. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'r cofrestrai dan sylw ein bod yn ymchwilio i gŵyn amdano. Byddwn yn rhoi copi o'r ffurflen ymchwiliad i'r cofrestrai.

**2. Ymchwilio i'r gŵyn**
Byddwn yn casglu gwybodaeth am eich cwyn er mwyn i ni allu penderfynu pa gamau i'w cymryd. Efallai y bydd angen i ni gael copïau o gofnodion clinigol y claf gennych chi ac unrhyw optometryddion, optegwyr cyflenwi neu ysbytai perthnasol eraill. Mae'n bosibl y bydd angen i ni gael rhagor o wybodaeth gennych chi, ac efallai y byddwn yn gofyn i chi lofnodi datganiad tyst yn esbonio'r hyn rydych chi'n ei wybod am y digwyddiadau y byddwn yn ymchwilio iddynt.

Byddwn yn anfon y wybodaeth y byddwn wedi'i chasglu at y cofrestrai ac yn gofyn iddo am ei sylwadau ynglŷn â'r gŵyn. Caiff unrhyw sylwadau a wneir gan y cofrestrai eu hanfon atoch wedyn, fel y gallwch ddweud wrthym os byddwch yn anghytuno ag unrhyw beth y bydd y cofrestrai wedi'i ddweud.

**3. Atgyfeirio'r gŵyn at yr archwilwyr achos**
Bydd yr archwilwyr achos yn ystyried achosion mewn parau – un cofrestrai ac un lleygwr. Byddant yn ystyried pob cwyn gan ddefnyddio'r wybodaeth y byddwn wedi'i chasglu.

Yr archwilwyr achos fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd, a gallant benderfynu:

- peidio â chymryd camau pellach
- peidio â chymryd camau pellach, ond rhoi cyngor i'r cofrestrai ar ei ymddygiad neu ei ymarfer yn y dyfodol
- gofyn am gynnal ymchwiliad pellach
- atgyfeirio'r achos at y Pwyllgor Ymchwilio am asesiad iechyd neu berfformiad
- rhoi rhybudd i'r cofrestrai
- atgyfeirio'r gŵyn at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer annibynnol, a fydd fel arfer yn cynnal gwrandawiad cyhoeddus i benderfynu pa gamau i'w cymryd

Os na all yr arholwyr achos gytuno, neu os byddant yn teimlo y gall fod angen asesiad iechyd neu berfformiad, byddant yn atgyfeirio'r achos at y Pwyllgor Ymchwilio. Mae'r Pwyllgor Ymchwilio yn cynnwys cofrestreion y GOC, offthalmolegydd ymgynghorol ac aelodau lleyg.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Ymchwilio yn y ddogfen ganllaw yn **www.optical.org/en/Investigating_complaints/fitness-to-practise-guidance/index.cfm**.

**4. Pa gamau y gall y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer eu cymryd mewn gwrandawiad cyhoeddus?**

Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu nad yw’r cofrestrai yn addas i ymarfer, gall wneud unrhyw un o’r canlynol:

- cofrestriad amodol – gall y cofrestrai aros ar y gofrestr cyn belled â'i fod yn cadw at rai amodau, fel cael hyfforddiant ychwanegol neu gael ei oruchwylio wrth ei waith
- atal y cofrestrai o’r gofrestr dros dro – caiff enw’r cofrestrai ei dynnu oddi ar y gofrestr dros dro, ac ni fydd yn gallu gweithio am gyfnod penodol
- tynnu’r cofrestrai oddi ar y gofrestr – caiff hyn weithiau ei alw'n ‘ddileu’ neu'n ‘daro oddi ar y rhôl’. Caiff enw’r cofrestrai ei dynnu oddi ar y gofrestr, sy’n golygu na fydd yn gallu gweithio fel optometrydd nac optegydd cyflenwi (na hyfforddi, na rhedeg busnes sydd wedi’i gofrestru â’r GOC) yn y DU. Os bydd am i’w enw gael ei roi yn ôl ar y gofrestr yn y dyfodol, ceir proses ar wahân y bydd yn rhaid iddo fynd drwyddi, sy’n cynnwys ystyried y rheswm gwreiddiol dros ei dynnu oddi ar y gofrestr
- cosb ariannol – bydd yn rhaid i’r cofrestrai dalu dirwy o hyd at uchafswm o £50,000.

Os bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn penderfynu bod cofrestrai yn addas i ymarfer, bydd yn gallu rhoi rhybudd iddo am ei ymddygiad neu ei berfformiad yn y dyfodol o hyd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a fydd yn digwydd gerbron y Panel Addasrwydd i Ymarfer yn y Canllawiau Ffitrwydd i Ymarfer yn **www.optical.org/investigating_complaints/ fitness-to-practise-guidance/index.cfm**.

## A fydd penderfyniad y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn derfynol?

Caiff y penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer eu hadolygu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (‘yr Awdurdod’) sy’n goruchwylio ein gwaith.

Gall yr Awdurdod ofyn i'r Uchel Lys adolygu penderfyniad os bydd yn penderfynu ei fod yn rhy drugarog. Os bydd y cofrestrai yn credu bod penderfyniad y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn annheg, gall apelio yn ei erbyn yn yr Uchel Lys.



## Beth allaf ei wneud os byddaf yn anfodlon ar y ffordd y byddwch wedi delio â’m cwyn?

Os byddwch yn anfodlon ar y ffordd y byddwn wedi delio â’ch cwyn am un o’n cofrestreion, ysgrifennwch at:

Cofrestrydd a Phrif Weithredwr / Registrar and Chief Executive
Y Cyngor Optegol Cyffredinol
10 Old Bailey
Llundain EC4M 7NG

## Cwynion am rywun sy’n esgus bod yn optegydd

Byddwn hefyd yn ymchwilio i gwynion bod rhywun nad yw’n un o’n cofrestreion naill ai’n esgus bod yn optometrydd neu’n optegydd cyflenwi neu’n cynnal gweithgareddau gofal iechyd na chaniateir i neb ond ein cofrestreion eu cynnal (fel profion golwg, ffitio lensys cyffwrdd neu gyflenwi sbectol i blant o dan 16 oed neu bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall). Mae ein Protocol ar Ymchwilio i Droseddau a'u Herlyn yn esbonio sut y byddwn yn delio ag ymchwiliadau troseddol ac erlyniadau. Gallwch gael gafael arno o’r adran ar bolisïau, gweithdrefnau a phrotocolau ar ein gwefan yn **www.optical.org**.

Gall unrhyw un chwilio drwy gofrestrau’r GOC i wneud yn siŵr bod optegydd wedi'i gofrestru a'i fod yn cael cynnal gweithgareddau penodol. Os na allwch ddefnyddio’r rhyngrwyd, gallwch ffonio ein tîm Cofrestru ar 020 7580 3898 (opsiwn 1). Bydd y tîm yn gallu rhoi gwybod i chi p’un a yw optegydd wedi'i gofrestru â ni ai peidio.

Os byddwch am gwyno am rywun nad yw’n un o’n cofrestreion ond sydd naill ai’n esgus bod yn un neu’n cynnal gweithgareddau na chaniateir i neb ond ein cofrestreion eu cynnal, cysylltwch â'n tîm Addasrwydd i Ymarfer drwy ffonio 020 7580 3898 (opsiwn 2).

Os na allwn eich helpu, efallai y bydd y canlynol o gymorth i chi. Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol i chi roi’r wybodaeth hon i gleifion sy’n gofyn i chi am gymorth.

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) | Corff annibynnol sy'n ceisio datrys cwynion gan aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn fodlon ar nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan bractis optegol cofrestredig. Gallwch gysylltu â'r OCCS ar 0844 800 5071 neu yn **www.opticalcomplaints.co.uk** |
| Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) | Rheoleiddiwr annibynnol y DU ar hysbysebu yn yr holl gyfryngau sy'n ymchwilio i gwynion am hysbysebion ffug neu gamarweiniol. Cysylltwch â'r ASA ar 020 7492 2222 neu yn **www.asa.org.uk** |
| Cyngor ar Bopeth | Os na fyddwch chi, neu glaf, yn siŵr wrth bwy i gwyno, neu os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth ar 020 7833 2181 neu yn **www.citizensadvice.org.uk** |
| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | Awdurdod annibynnol y DU ar gyfer diogelu hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan annog cyrff cyhoeddus i fod yn agored a hyrwyddo preifatrwydd i unigolion. Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 08456 30 60 60 neu 01625 545745, neu ewch i **www.ico.gov.uk** |
| Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) | Gall staff PALS roi cyngor cyffredinol ar weithdrefnau cwyno ac efallai y gallant helpu i ddatrys cwynion llai difrifol drwy drafodaethau anffurfiol. Mae PALS ar gael ym mhob un o ymddiriedolaethau'r GIG, a gallwch ddod o hyd i'ch swyddfa PALS leol drwy ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 1558 121 neu fynd i **www.pals.nhs.uk** |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol (ICAS) | Mae ICAS yn cefnogi cleifion a'u gofalwyr sy'n dymuno gwneud cwyn am driniaeth neu ofal y maent wedi'i gael gan y GIG. Caiff ICAS ei ddarparu gan dri sefydliad: POhWER yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, Llundain a Dwyrain Lloegr **www.pohwer.net**<br><br>SEAP yn Ne-ddwyrain a De-orllewin Lloegr **www.seap.org.uk/icas**<br><br>Carers Federation yng Ngogledd-ddwyrain, Gogledd-orllewin a Dwyrain Canolbarth Lloegr, Swydd Efrog a Glannau Humber **www. carersfederation.co.uk** |
| Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru | Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru Gall y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned roi cymorth preifat am ddim mewn perthynas â chwynion am wasanaethau'r GIG a gafwyd yng Nghymru. Ffoniwch 0845 644 7814 neu ewch i **www.patienthelp.wales.nhs.uk** |
| Yr Alban | Gall Byrddau Iechyd Lleol yn yr Alban roi cymorth preifat am ddim mewn perthynas â chwynion am wasanaethau'r GIG a gafwyd yn yr Alban. Ewch i **www.show.scot.nhs.uk** |
| Gogledd Iwerddon – Cyngor Cleifion a Chleientiaid | Gall y Cyngor Cleifion a Chleientiaid helpu mewn perthynas â chwynion am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon. Ffoniwch 0800 917 0222 neu ewch i **www.patientclientcouncil.hscni.net** |
| Witness | Elusen sy'n ymroddedig i helpu pobl sydd wedi cael eu cam-drin gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yw Witness. Gallwch gysylltu â'r elusen ar 08454 500 300 ac yn **www.popan.org.uk** |
| Gweithredu yn Erbyn Damweiniau Meddygol (AvMA) | Elusen annibynnol sy'n rhoi cyngor a chymorth meddygol-gyfreithiol arbenigol yn rhad ac am ddim ar unrhyw gam o'r broses gwyno lle y bydd goblygiadau o ran diogelwch cleifion. Mae'n ymdrin â gweithdrefnau cwyno yn y GIG a'r sector gofal iechyd preifat, ac mae'n gallu rhoi cyngor ar atgyfeiriadau at gyrff rheoleiddio neu gamau cyfreithiol. Gallwch gysylltu â'r elusen ar 0845 123 2352 ac yn **www.avma.org.uk** |
| Public Concern at Work (PCaW) | Elusen annibynnol sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim i bobl sydd â phryderon am chwythu'r chwiban er budd y cyhoedd. Cysylltwch â'r elusen ar 020 7404 6609 neu yn **www.pcaw.co.uk** |

**Atodiad 1 – Sut i ofyn am ragor o wybodaeth gan y GOC ar ôl i ymchwiliad ddechrau yn erbyn un o'ch cyflogeion**

Mae adran 13C(3) o Ddeddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu y caiff y GOC ddatgelu i unrhyw berson unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag addasrwydd cofrestrai i ymarfer neu ymgymryd â hyfforddiant neu gynnal busnes pan fydd y GOC o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth honno er budd y cyhoedd.

Mae budd ehangach y cyhoedd yn cynnwys nid yn unig diogelu aelodau o'r cyhoedd, ond cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau, a datgan a chynnal safonau ymddygiad priodol.

I wneud yr asesiad hwnnw, bydd angen i ni gael cais ysgrifenedig gennych chi. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r templed canlynol:

---

At: [Enw'r gweithiwr achos yn y GOC]
Y Cyngor Optegol Cyffredinol
10 Old Bailey
Llundain EC4M 7NG

[neu drwy e-bost i'r cyfeiriad a roddwyd i chi mewn gohebiaeth]

Dyma gais am ragor o wybodaeth am [Enw'r cofrestrai/ Rhif cofrestru GOC/ Rhif cyfeirnod yr achos]

[Disgrifiwch eich cysylltiad â'r cofrestrai rydych yn holi yn ei gylch]

Drwy lythyr dyddiedig [rhowch y dyddiad] rhoesoch wybod i mi fod y GOC yn ymchwilio i'r cofrestrai y cyfeirir ato uchod. Hoffwn ofyn am ragor o wybodaeth am ymchwiliad y GOC a chredaf y byddai datgelu'r wybodaeth hon i mi er budd y cyhoedd oherwydd

- [Esboniwch pam y byddai hynny er budd y cyhoedd]

Yn gywir

[Enw]
Manylion cyswllt

---

Byddwn yn ceisio ymateb i'ch cais o fewn pum diwrnod gwaith.